# EDT2 13-04 (draft min)

## Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Cofnodion Drafft

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 22 Medi 2004 |
| **Amser** | 9.00 hyd 12.45 |
| **Lleoliad** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |

**Yn Bresennol:**

| **Aelodau'r Pwyllgor** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

**Dirprwyon**

| | |
|---|---|
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| David Hobbs | Yr Is-adran Buddsoddiadau a Rheolaeth Gorfforaethol |
| Denzil Jones | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| Michael Eaton | Cyfarwyddwr, Uned Band Eang Cymru |
| Emyr Roberts | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) |
| Caroline Turner | WEFO |
| Eleanor Marks | WEFO |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Y Grp Strategaeth a Chyfathrebu |
| Jonathan Price | Yr Uned Ymchwil Economaidd |

## Yn bresennol

Stefan Stanislawski Cyfarwyddwr, Pennaeth Band Eang, Analysis Consulting Limited

## Yr Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Lynsey Edwards | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Roedd Huw Lewis yn bresennol fel dirprwy i Lynne Neagle, a ymddiheurodd am fethu â bod yn bresennol.uw Lew

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**EDT2 13-04 (p1)**
**EDT2 13-04 (p2)**
**EDT2 13-04 (p3)**

2.1 Dywedodd y Gweinidog ei fod yn bleser ganddo gyhoeddi ei fod wedi ysgrifennu at Roger Jones, yn gadarnhau ei ailbenodiad fel Cadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru hyd nes y byddai'r Cyrff Cyhoeddus penodol a Noddir gan y Cynulliad yn dod yn rhan o'r Cynulliad.

2.2 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch arbrawf hedfan cerbydau awyr heb griw (UAVs) yn Llanbedr ac Aberporth, dywedodd y Gweinidog ei fod yn parhau i drafod y mater â'r Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn sicrhau bod y safleoedd hyn yn parhau'n flaenllaw yn ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cytunodd i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch prosiect UAV Watchkeeper. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.3 Bu i sawl Aelod godi cwestiwn ynghylch y swyddi a allai gael eu colli yn DARA. Cydnabyddwyd y gallai'r swyddi gael eu colli oherwydd penderfyniad gwleidyddol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn unol â'i blaenoriaethau hi. Holwyd sawl cyfarfod yr oedd y Gweinidog wedi'u cael â DARA a pha mor aml y'u cynhaliwyd a chyfeiriwyd at effaith y colledion o ran swyddi ar brosiect y Ddraig Goch. Cytunodd y Gweinidog mai penderfyniad gwleidyddol ydoedd a bod DARA wedi ymgynghori'n agos â'r undebau llafur. Yn ogystal, roedd Jane Hutt wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr ac â'r undebau llafur. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion i'r Pwyllgor ynghylch nifer ac amlder y cyfarfodydd a gynhaliwyd ac ynghylch yr ohebiaeth a fu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a DARA. Fodd bynnag, ni allai ddatgelu union fanylion yr ohebiaeth. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.4 Holodd Aelod beth oedd y newyddion diweddaraf ynghylch Gwasanaethau Awyr oddi mewn i Gymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi derbyn yr adroddiad ar yr ymarfer ymgynghori mor belled. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog wneud cyhoeddiad i'r Pwyllgor yn y man. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.5 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch dyfodol y Cronfeydd Strwythurol, dywedodd y Gweinidog mai blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd sicrhau'r fargen orau i Gymru. Er bod y mater yn cael ei drafod gan yr Aelod-Wladwriaethau ar hyn o bryd roedd yn ymwybodol o ddatblygiad sefyllfa'r DU.

2.6 O ran ymarfer ymgynghori TAN 8 ar ynni adnewyddadwy, dywedodd y Gweinidog mai'r peth mwyaf priodol i'w wneud oedd cyflwyno cwestiynau penodol i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Roedd yr Aelodau'n bryderus nad oedd yr ymarfer ymgynghori wedi derbyn cyhoeddusrwydd digonol mewn rhai ardaloedd a chytunodd y Gweinidog i archwilio y cyhoeddusrwydd yr oedd yr ymarfer wedi'i dderbyn ledled Cymru. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.7 O ran gwasanaeth y Traws Cambria a chysylltiadau bws dros bellter, bu i'r Swyddogion ddatgan bod Arriva wedi cytuno i gynnal y cyswllt bws o Gaerdydd i Aberystwyth er mwyn gweld a fyddai'n fasnachol ymarferol. Os na fyddai gallai Arriva ddod â'r gwasanaeth i ben. Byddai'n bosibl wedyn i gwmni arall gynnal gwasanaeth cyffelyb; fodd bynnag gallai arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ofynnol mewn sefyllfa o'r fath. Byddai Ffederasiwn Cenedlaethol Defnyddwyr Bysiau (NFBU) yn monitro'r sefyllfa yn ystod y 2 fis nesaf. Roedd y gwasanaethau a gynigid rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth a rhwng Aberystwyth a Bangor wedi gwella. Disgwylid i fysiau newydd gael eu cyflwyno yn y Flwyddyn Newydd. Bu i'r Aelodau annog y Gweinidog i roi pwysau ar Arriva i gynnal y gwasanaeth rhwng Caerdydd ac Aberystwyth gan ei bod yn bwysig cynnal y gwasanaeth hwn yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau cysylltu. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar hynt y cysylltiadau rhwng y gwahanol fathau o drafnidiaeth. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.8 Mewn ymateb i gwestiwn ar wariant Bwrdd Croeso Cymru ar dwristiaeth, cytunodd y Gweinidog i ddarparu amlinelliad o'r gwariant ar bob rhanbarth ac i egluro pam nad oedd cynnydd yn y gwariant ar Ganolbarth Cymru. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.9 Bu i sawl Aelod holi cwestiynau ynghylch y tagfeydd ar ffyrdd Sir Benfro, ac yn arbennig y cysylltiadau â phorthladd Abergwaun. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio gwneud cyhoeddiad pellach ar y Strategaeth Drafnidiaeth ar ôl i'r gyllideb gael ei phennu'n derfynol. Mewn ymateb i'r awgrym ynghylch gwasanaethau cludo ceir ar drenau i'r porthladd er mwyn lleihau'r tagfeydd, dywedodd y Gweinidog y byddai'r awgrym hwn yn golygu cryn fuddsoddiad gan STENA a Network Rail.

2.10 O ran diogelwch ar ffyrdd y tu allan i ysgolion, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod â llefarydd trafnidiaeth newydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac y cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw y gallai llawer iawn mwy gael ei wneud drwy gydweithio ar draws awdurdodau lleol er mwyn cyflawni system ddiogelwch fwy effeithiol. Yn ogystal, derbyniwyd i raddau helaeth y dylid pennu terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr y tu allan i ysgolion.

2.11 O ran symud 600 o swyddi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i Gasnewydd, dywedodd y Gweinidog y byddai'r swyddi'n cael eu symud yn raddol yn ystod y 2 i 3 blynedd nesaf. Fodd bynnag, nid oedd yn siwr eto faint o swyddi newydd fyddai'n cael eu creu yn yr ardal.

2.12 Mewn ymateb i gwestiwn ar y tanwariant o'r Gronfa Adfywio Lleol, dywedodd y Gweinidog fod swyddogion wrthi'n cynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch prosiectau mawr, yn benodol, nad oedd wedi datblygu. Byddai'n ystyried cymryd tanwariant i ffwrdd o awdurdodau lleol nad ydynt yn perfformio'n briodol. Cytunodd i roi rhestr i'r Aelodau o'r prosiectau sydd wrthi'n cael eu trafod. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.13 O ran Cynllun Gofodol Cymru, dywedodd y Gweinidog mai dogfen ymgynghori ydoedd y Cynllun mewn gwirionedd ac felly nid oedd yn rhoi cyfarwyddyd. Gobeithiai allu cyhoeddi datblygiadau newydd yn fuan.

2.14 Cododd Aelod gwestiwn penodol ynghylch cyllid ar gyfer datblygu caffi ar ben Yr Wyddfa. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r newyddion diweddaraf ynghylch y trafodaethau yr oedd wedi'u cael mewn perthynas â'r mater hwn. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.15 Cododd sawl Aelod bryderon ynghylch y ffaith bod Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y byddai Awdurdod Datblygu Cymru yn arbennig yn colli ei frand ac o ganlyniad ei enw da ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mynegwyd pryderon yn ogystal y byddai'n colli ei arbenigedd masnachol, gan mai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai'n ei redeg yn dilyn yr uno. Bu i'r Aelodau ofyn am sicrwydd y byddai llais busnesau yn cael ei glywed o hyd. Dywedodd y Gweinidog y byddai swyddogion yn rhagweithiol ac y byddai Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn parhau i roi sylw arbennig i'w cwsmeriaid. Ni fyddant yn colli eu cystadleugarwch ym myd busnes a bydd yn bosibl craffu arnynt mewn rhagor o fanylder. Byddai systemau yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl derbyn cyngor busnes oddi wrth y sector preifat. Bu i'r Aelodau holi a oedd Deddf Llywodraeth Cymru yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi'r broses ar waith. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y broses ddeddfwriaethol. Bu i'r Aelodau ddatgan ei bod yn bwysig bod yr holl broses uno yn cael ei chynnal yn gyhoeddus. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Aelodau'r Pwyllgor drafod y mater yn ffurfiol cyn mis Tachwedd. [Gweithredu: Y Gweinidog]

2.16 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gareth Hall yn ei longyfarch ar ei benodiad diweddar fel Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru. [Gweithredu: Y Cadeirydd/Y Clerc].

2.17 O ran yr adroddiadau ystadegol chwarterol, dywedodd y Gweinidog fod targedau Cymru'n Ennill eisoes yn cael eu bodloni a bod hyder o'r newydd yn bodoli o fewn y sector gweithgynhyrchu. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y cynnydd yn y lefelau anweithgarwch, dywedodd y Gweinidog ei bod yn rhy gynnar i ddweud a fyddai'r gostyngiad yn dueddiad mwy hirdymor.

## Eitem 3: Strategaeth Band Eang Cymru
## EDT2 13-04 (p4)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem a dywedodd ei fod wedi gofyn am yr adolygiad ar ôl i British Telecom ymestyn nifer y cartrefi yng Nghymru a all fanteisio ar gyswllt band eang i 95%. Roedd BT wedi cynyddu lefel ei dechnoleg gywasgu er mwyn galluogi i 40-60,000 o safleoedd ychwanegol fanteisio ar gyswllt Band Eang.

3.2 O ran y 35 cyfnewidfa na allai BT eu cyrraedd â Band Eang, bu i'r swyddogion ddatgan mai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd creu prosiect i ddarparu Band Eang i'r ardaloedd hyn, a byddai proses gystadleuol yn gwahodd pobl i gyflwyno ceisiadau yn cael ei chynnal. Roedd BT a Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn archwilio technolegau eraill, fel cyswllt di-wifr a WYMAX, er mwyn creu dewisiadau eraill ar gyfer ardaloedd na all fanteisio ar gyswllt Band Eang ar hyn o bryd. Roedd technoleg di-wifr wedi datblygu'n sylweddol ac nid oedd bellach ond ychydig yn llai dibynadwy na Band Eang.

3.3 O ran defnyddio technoleg lloeren yn lle Band Eang, bu i'r swyddogion ddweud y gallai lloeren sicrhau bod Cymru gyfan yn gallu manteisio ar gyswllt Band Eang ond byddai'n fwy drud i ddefnyddwyr - oddeutu £30 y mis. Bu i'r swyddogion gytuno bod ansawdd a chyflymder y gwasanaeth Band Eang yn fater pwysig yng Nghymru a bod y ddarpariaeth bresennol yn aml yn annigonol i hyd yn oed gwmnïau o faint canolig. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith na fyddai strategaeth eiddo Awdurdod Datblygu Cymru, a anelai at gynyddu'r ddarpariaeth o Fand Eang i barciau busnes, yn cynorthwyo canolfannau presennol sy'n cynnwys busnesau mawr. Dywedodd y Gweinidog mai un agwedd ar y rhaglen Band Eang ydoedd y strategaeth.

3.4 O ran y Cronfeydd Strwythurol sydd ar gael ar gyfer Band Eang, bu i'r swyddogion ddatgan bod cyllid Amcan Un yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau presennol, fel Cymorth Band Eang Arloesol Rhanbarthol (RIBS) a'r Cynllun Cymorth Grant Cysylltedd, sef prosiect ehangu gan y sector cyhoeddus. Roedd cyllid Amcan Dau wrthi'n cael ei drafod â WEFO. Roedd prosiectau unigol eraill ym Mhowys a Mynwy wedi gallu manteisio ar gyllid o'r sector preifat.

3.5 Bu i'r Aelodau gytuno bod rhaglenni ysgogi galw yr un mor bwysig â darparu mynediad. Bu i'r swyddogion ddatgan bod Awdurdod Datblygu Cymru yn ymwneud llawer â chodi ymwybyddiaeth busnesau a bod y Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes yn annog y defnydd cyhoeddus o Fand Eang mewn llyfrgelloedd. Roedd prosiectau Cymru Ar Lein a Llywio'r Llygoden hefyd yn helpu i sicrhau bod pobl yn gyfarwydd â thechnoleg.

3.6 Mewn ymateb i gais, bu i'r swyddogion gytuno i ddarparu tabl cynghrair o nifer y bobl yng Nghymru sydd â chyswllt Band Eang o'i gymharu â'r sefyllfa mewn gwledydd eraill. Roedd yr Aelodau'n awyddus i weld yr hollt rhwng y sector cyhoeddus a defnyddwyr eraill. Bu i swyddogion bwysleisio bod ymchwil pellach yn ofynnol er mwyn gallu cymharu'n glir er bod BT yn cyhoeddi ffigurau nad oedd darparwyr eraill yn eu cyhoeddi.

3.7 Dywedodd y Gweinidog y byddai pwyslais yn cael ei roi yn awr ar gyflwyno ail genhedlaeth Band Eang ar draws Cymru yn raddol. [Gweithredu: Y Gweinidog]
Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'r Clerc yn awr yn casglu eu sylwadau ynghyd ac y byddai llythyr ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog.[Gweithredu: Y Clerc/Y Cadeirydd]

## Eitem 4: Adroddiad Chwarterol WEFO
## EDT2 13-04 (p5)

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem a dywedodd y bu'n flwyddyn arbennig o ran rheoli'r Cronfeydd Strwythurol a llongyfarchwyd Dr Emyr Roberts a'i dîm rheoli. Dywedodd yn ogystal fod Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi canmol WEFO mewn adroddiad diweddar. Roedd y Gweinidog wedi lansio prosiect rhif 2000 yn ddiweddar a derbyniwyd bonws o £65 miliwn am fodloni pob targed.

4.2 Amlinellodd Christine Chapman uchafbwyntiau cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a gynhaliwyd yn Arberth ar 20 Medi. Roedd is-bwyllgor perfformiad wrthi'n cael ei greu a byddai canllawiau mwy clir mewn perthynas ag apeliadau ar gael.

4.3 O ran apeliadau, bu i'r swyddogion ddatgan y gallai fod cynnydd bychan gan fod llawer o fesurau eisoes wedi'u neilltuo'n gyfan gwbl ac o ganlyniad gallai rhai ymgeiswyr deimlo'n ddig. Fodd bynnag, ni fyddai apeliadau ond yn cael eu hystyried bellach yn unol â'r broses ac nid ar sail cynnwys y cais. Roedd canllawiau newydd wrthi'n cael eu dosbarthu er mwyn sicrhau bod y broses yn fwy clir.

4.4 Bu i'r Aelodau godi pryderon fod awdurdodau lleol llai dan anfantais gan nad oedd ganddynt y staff, yr adnoddau na'r gallu ariannol i gyflwyno cais am brosiectau ar raddfa fawr a bod angen iddynt ddibynnu ar bartneriaid fel Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer arbenigedd. Yn ogystal, ymddangosai fod prinder o brosiectau ar raddfa ganolig neu fawr ar hyd coridor Blaenau'r Cymoedd a theimlai rhai Aelodau nad oedd Awdurdod Datblygu Cymru wedi bod yn rhagweithiol yn yr ardaloedd hyn. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn deall pryderon yr Aelodau mewn perthynas â hyn ac mai dyma oedd un o'r rhesymau pam y lansiodd Menter Blaenau'r Cymoedd. Cytunai fod rhagor o gydweithio yn angenrheidiol rhwng awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r cronfeydd strwythurol.

4.5 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a fyddai WEFO yn bodloni ei thargedau o ran ymrwymiad, bu i'r swyddogion ddatgan eu bod yn hyderus bod prosiectau eraill yn cael eu cyflwyno a bod lefel yr ymrwymiad yn uwch nag ydoedd y llynedd. Roeddent yn hyderus y byddai'r targedau yn cael eu bodloni. Bu i'r Aelodau annog WEFO i fod yn fwy rhagweithiol wrth neilltuo cyllid cyn i'r rhaglen ddod i ben.

4.6 O ran adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, bu i'r swyddogion ddweud eu bod yn cyfarfod â'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac yn cysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion posibl o ran dadymrwymo.

4.7 O ran y ffigurau ar gyfer y swyddi a ragwelir/swyddi gwirioneddol, bu i'r Swyddogion sicrhau'r Aelodau nad oedd unrhyw gyfrif dwbl wedi digwydd ac o ganlyniad fod y ffigur o ran y swyddi yn gywir.

4.8 Mewn ymateb i gwestiwn ar ailwladoli cyllid i lywodraeth y DU ar ôl 2006, dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau'n parhau rhwng yr Aelod-Wladwriaethau ac mai blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd sicrhau'r fargen orau i Gymru.

4.9 Cytunodd WEFO i ddarparu manylion pellach ynghylch datgrynhoi'r ffigurau ynghylch 'Partneriaethau Eraill' a gynhwysir yn yr adroddiad, ar gyfer pob ardal bartneriaeth leol lle bo'n bosibl. **[Gweithredu: WEFO]**

## Eitem 5: Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
**EDT2 13-04 (p6)**
**EDT2 13-04 (p7)**

5.1 Bu i'r Aelodau longyfarch y Swyddogion ar gynnwys yr adroddiad 'Raising Economic Activity Rates'. Gobeithiai'r Aelodau y byddai'r holl bleidiau yn cydweithio i ddileu tlodi ym ymysg plant, a amlinellir yn yr adroddiad, erbyn 2020.

5.2 Bu i'r Aelodau godi pryderon ynghylch y ffaith bod rhai prosiectau bellach ar raddfa lai yn sgîl cost cynllun Y Fargen Newydd. Bu i'r swyddogion gytuno i ddarparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor [Gweithredu: Y Gweinidog]

5.3 O ran y cynllun Bonws Dychwelyd i'r Gwaith, bu i'r swyddogion gadarnhau bod y taliad o £40 yr wythnos i'r bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith eisoes yn cael ei ddyfarnu fel rhan o'r Cynllun Llwybrau i Weithio. Telid y swm am flwyddyn ar hyn o bryd ond roedd cynnig i ymestyn y taliad yn cael ei ystyried. Yn ogystal, byddai'n ddiddorol gweld canlyniadau'r gwaith gwerthuso o ran nifer y bobl sy'n gadael eu swyddi ar ôl blwyddyn.

5.4 Cyfeiriodd Aelod at fater tai ac at ei effaith ar iechyd a hunanhyder. Bu i'r swyddogion gadarnhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyfforddi pobl economaidd anweithgar i ymgymryd â gwaith ailwampio sy'n angenrheidiol o dan Gynllun Trosglwyddo'r Stoc Tai Cyngor.

5.5 Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd Cyfarwyddebau Ewropeaidd yn annog pobl i beidio â defnyddio eu ceir, dywedodd y Gweinidog fod Gweinidog Trafnidiaeth y DU wedi cyhoeddi bwriad i ymgymryd ag ymarfer ymgynghori ar brisio ffyrdd yn y dyfodol.

5.6 O ran caffael, dywedodd y Gweinidog y byddai'n sefydlu Tasglu Caffael Busnes er mwyn gwneud y broses yn fwy agored ac yn haws manteisio arni.

5.7 Bu i'r Aelodau awgrymu y gallai swyddogaeth Meddygon Teulu a chynghorwyr iechyd galwedigaethol gael ei chryfhau.

5.8 an nad oedd llawer o amser ar ôl, bu i'r Aelodau gytuno y byddai'r drafodaeth ar bapur Gwasanaethau'r Pwyllgorau [EDT2 13-04 p7], yn awgrymu argymhellion ar gyfer adroddiad y Pwyllgor ar anweithgarwch economaidd, yn cael ei chynnal yn y cyfarfod nesaf ar 13 Hydref 2004.

## Eitem 6: Rhaglen Is-Ddeddfwriaeth y Pwyllgor
**EDT2 13-04 (p8)**

6.1 Yn sgîl diffyg amser, cytunwyd y byddai'r Aelodau'n cyflwyno sylwadau i'r Clerc ar unrhyw eitemau penodol i graffu arnynt ymhellach drwy e-bost.

**Eitem 7: Deddfwriaeth yr UE**
**EDT2 13-04 (p9)**

7.1 Yn sgîl diffyg amser, cytunwyd y byddai'r Aelodau'n cyflwyno sylwadau i'r Clerc ar unrhyw eitemau penodol i graffu arnynt ymhellach drwy e-bost.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf**
**EDT2 11-04 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2004**
**EDT2 12-04 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2004**
**EDT2 13-04 Camau heb eu Cymryd**

8.1 Yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2004, bu i'r Aelodau ofyn i gyfeiriad at brosiect UAV Watchkeeper gael ei gynnwys.

8.2 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2004 yn gofnod cywir

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau**

**Medi 2004**